OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 558 (Cy.48) (C.24)

ARCHWILIO CYHOEDDUS, CYMRU A LLOEGR

Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005

Wedi'i wneud - - 8 Mawrth 2005

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 73 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

(3) Mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni, oni nodir yn wahanol, yn gyfeiriadau at adrannau o'r Ddeddf ac Atodlenni iddi.

Darpariaethau sy'n dod i rym

2.—(1) Daw darpariaethau'r Ddeddf a bennir yng ngholofn gyntaf Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2005.

(2) Daw'r darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) uchod i rym at y dibenion a bennir yn ail golofn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Darpariaethau trosiannol ac arbedion

3. Mae Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn effeithiol at ddibenion gwneud darpariaethau trosiannol ac arbedion o ran y darpariaethau y maent yn cyfeirio atynt.

(**1**) 2004 p. 23.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

D. Elis-Thomas
8 Mawrth 2005 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1998 p.38.

ATODLEN 1 Erthygl 2

Adrannau 1 i 6	At bob diben.
Adran 7	Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau paragraff 1 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, at bob diben.
Adrannau 8 i 11	At bob diben.
Adrannau 13 i 15	At bob diben.
Adrannau 17 i 19	At bob diben.
Is-adrannau (4) i (6) o adran 20	At bob diben.
Is-adrannau (3) a (4) o adran 21	At bob diben.
Adrannau 22 i 38	At bob diben.
Adran 39	At bob diben nad yw eisoes wedi'i chychwyn, ond dim ond o ran y cyfrifon neu'r datganiadau o gyfrifon a baratowyd o ran blwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2005 neu ar ôl hynny.
Adrannau 40 i 49	At bob diben.
Adran 50 ac Atodlen 1	At bob diben nad ydynt eisoes wedi'u cychwyn.
Adrannau 51 i 53	At bob diben.
Adrannau 55 i 57	At bob diben.
Rhan 3	At bob diben.
Adran 65	At bob diben.
Adran 66 ac Atodlen 2	Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, at bob diben.
Adran 67	At bob diben.
Adrannau 69 i 70	At bob diben.
Adran 72 ac Atodlen 4	Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, at bob diben.

ATODLEN 2 Erthygl 3

Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion

Pŵer yr Archwilydd Cyffredinol i godi ffi am archwilio cyfrifon.

1. Er i adran 7 ac Atodlen 4 ddod i rym, mae adran 93(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**) yn parhau i fod yn effeithiol, fel pe na bai'r Ddeddf wedi'i diddymu, i'r graddau y mae'n ymwneud â ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon y Cynulliad a baratowyd o ran unrhyw flwyddyn ariannol sy'n dechrau cyn 1 Ebrill 2005.

(**3**) 1998 p.38